estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# **Gwaith ymgysylltu:**
# Diweddariad am y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) – hydref 2020

Rhagfyr 2020



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) – hydref 2020

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ymgysylltu a wnaed i 20 o ysgolion arbennig a gynhelir ac 19 o UCDau rhwng diwedd mis Medi a diwedd mis Hydref 2020. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr, yn ogystal â chanfyddiadau o arolygon rhanddeiliaid. Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles disgyblion, staff ac uwch arweinwyr, a naill ai sut roedd ysgolion yn hyrwyddo dysgu neu'n darparu cymorth ar gyfer eu dysgwyr sy'n agored i niwed. Yng nghyd-destun ysgolion arbennig ac UCDau, ystyrir bod yr holl ddysgwyr yn agored i niwed. Fodd bynnag, rydym wedi cadw'r defnydd o'r term hwn er cysondeb ac i hwyluso cyfeirio at ein canfyddiadau mewn sectorau eraill. Mae cyfrannau'n ymwneud â'r sampl o ysgolion ac UCDau yr ydym wedi cysylltu â nhw.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid a/neu uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am feysydd penodol
- Canfyddiadau o arolygon ar gyfer disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, arweinwyr ysgol ac UCDau, athrawon a staff cymorth

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


**Canfyddiadau allweddol ... 1**

Hyrwyddo lles dysgwyr, staff ac arweinwyr ... 1

Hyrwyddo dysgu ... 1

Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ... 2

**Canfyddiadau manwl ... 3**

Hyrwyddo lles ... 3

Hyrwyddo dysgu ... 7

Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ... 16

## Canfyddiadau allweddol

### Hyrwyddo lles dysgwyr, staff ac arweinwyr

Dywed arweinwyr eu bod wedi parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar gefnogi lles dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu er mis Medi. Maent yn disgrifio'r modd y mae staff wedi gweithio'n greadigol i wella'r amgylchedd dysgu a darparu profiadau meithringar. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i drafod eu gorbryderon a'u teimladau mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion arbennig fod presenoldeb disgyblion wedi gwella trwy gydol y tymor, ac ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n cael eu gwarchod gartref o ganlyniad i risgiau meddygol sylweddol. Mewn llawer o UCDau, dywed arweinwyr fod cyfraddau presenoldeb yn uchel ar ddechrau'r tymor, ond eu bod wedi gostwng ers hynny. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, dywed arweinwyr fod disgyblion wedi ymateb yn dda i addasiadau i leihau risg haint, fel newidiadau i symud o gwmpas yr adeilad, glynu at swigod cymdeithasol, a bod staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE).

Mae bron pob arweinydd ar draws y ddau sector yn cadarnhau y bu cynnal lles staff yn flaenoriaeth allweddol ers dechrau'r cyfnod cau ysgolion. Mae mwyafrif yr arweinwyr yn cyfeirio at yr her o ran rheoli patrymau parhaus o absenoldeb staff.

Mae bron pob arweinydd ysgol arbennig ac UCD yn sôn am yr heriau sylweddol sydd wedi'u hwynebu er mis Medi. Mae llawer o arweinwyr yn mynegi pryderon sylweddol am gynaliadwyedd y ddarpariaeth a chapasiti'r ysgol a'r grŵp staff ehangach i barhau i weithio yn y modd hwn am gyfnod amhenodol.

### Hyrwyddo dysgu

Mae llawer o arweinwyr yn cadarnhau'r heriau roeddent yn eu hwynebu pan gaewyd ysgolion ac UCDau i ddatblygu model dysgu o bell neu ddysgu cyfunol a oedd yn diwallu galluoedd ac anghenion amrywiol iawn yr holl ddisgyblion yn yr ysgol. Cyfeiriodd llawer ohonynt at yr anawsterau roedd rhieni a gofalwyr yn eu hwynebu yn cefnogi dysgu eu plant gartref, naill ai oherwydd cymhlethdod anghenion eu plant, diffyg medrau i gefnogi dysgu, gan gynnwys medrau digidol, neu fynediad cyfyngedig at offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn gyffredinol, mae lleoliadau wedi mabwysiadu cyfuniad o blatfformau TGCh wedi'u cyfuno â phecynnau ffisegol o adnoddau dysgu a oedd yn adlewyrchu orau allu'r disgyblion a'u teuluoedd i ymgysylltu â nhw.

Er mis Medi, mae llawer o arweinwyr wedi canolbwyntio ar asesu lefelau cyflawniad presennol disgyblion, gyda ffocws penodol ar lythrennedd, rhifedd, ymddygiad, rhyngweithio cymdeithasol, ac annibyniaeth. Mewn llawer o leoliadau, mae staff yn defnyddio dull graddol o asesu ac ailgyflwyno dulliau dysgu a oedd wedi'u sefydlu yn y gorffennol i leihau gorbryderon disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau sector yn disgrifio'r modd y mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i addasu rhaglenni dysgu unigol disgyblion i ganiatáu ar gyfer ymyriadau a chymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o UCDau yn cadarnhau bod canlyniadau asesiadau

gwaeodlin yn dangos bod lefelau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gostwng. Mewn llawer o ysgolion arbennig, dywed arweinwyr fod lefelau medrau annibyniaeth disgyblion wedi llithro'n ôl, yn enwedig o ran eu medrau gofal personol.

Mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, dywed arweinwyr fod ystyriaethau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â COVID-19 wedi cyfyngu ar fynediad at agweddau pwysig ar gwricwlwm y lleoliad. Er enghraifft, mae ysgolion arbennig wedi cwtogi ar y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer medrau annibyniaeth yn y gymuned, a dywed UCDau fod llai o gyfle i fanteisio ar leoliadau gwaith a chyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol gyda darparwyr allanol.

Mae staff mewn ysgolion arbennig ac UCDau wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol perthnasol er mis Mawrth, sydd wedi eu paratoi ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Dywed arweinwyr fod cyfleoedd dysgu proffesiynol cynlluniedig yn cynnwys ffocws cryf ar gefnogi staff a disgyblion i ymgysylltu â dulliau dysgu cyfunol. Mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, mae staff yn parhau i addasu adnoddau ac yn datblygu dulliau dysgu cyfunol yn seiliedig ar eu gwerthusiad o'r hyn a weithiodd yn dda yn ystod cyfnod cychwynnol cau ysgolion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran defnyddio platfformau ar-lein.

## Cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed

Yn gyffredinol, ar draws lleoliadau, mae adolygiadau ac asesiadau statudol wedi parhau er mis Mawrth 2020. Mae hyn oherwydd bod staff ac arbenigwyr addysg ar draws y rhan fwyaf o asiantaethau allanol wedi cynnal cyfathrebu trwy blatfformau digidol. Dywed llawer o arweinwyr fod mwy o bobl broffesiynol yn mynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu nag erioed o'r blaen.

Dywed arweinwyr fod rhieni'n fodlon â'r adolygiadau rhithwir hyn ac yn ymgysylltu'n dda â nhw, yn y mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae arweinwyr yn nodi nad yw rhieni wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein neu nad ydynt yn hoffi peidio â gallu gweld y staff sy'n gweithio gyda'u plant wyneb yn wyneb.

Mewn lleiafrif o achosion, dywed arweinwyr ysgolion arbennig eu bod wedi cael anawsterau yn darparu ystod lawn yr ymyriadau ar gyfer disgyblion, fel yr amlinellir yn eu datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog nad ydynt bob amser wedi gallu manteisio ar ddarpariaeth a gyflwynir o bell. Yn ychwanegol, oherwydd cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, ni ellir cynnig ymyriadau therapiwtig fel hydrotherapi a therapi adlam mewn llawer o leoliadau.

Mae staff arbenigol o lawer o asiantaethau allanol bellach wedi ailddechrau cynnal apwyntiadau ac ymyriadau therapiwtig wyneb yn wyneb mewn ysgolion arbennig ac UCDau. Mae'r datblygiad cadarnhaol hwn yn helpu cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed i ddychwelyd i'w lleoliad, yn enwedig y disgyblion hynny sydd ag anawsterau meddygol ac emosiynol sylweddol.

Fodd bynnag, dywed llawer o arweinwyr fod ychydig o wasanaethau'n parhau i gynnig ymgynghoriadau rhithwir yn unig, a'u bod wedi darparu ymyriadau cyfyngedig

i ddisgyblion er mis Mawrth. Mewn ysgolion arbennig, er enghraifft, mae ychydig o arweinwyr yn sôn am anawsterau pan fydd staff o asiantaethau allanol yn gwisgo cyfarpar diogelu personol sy'n anghyfarwydd i ddisgyblion, neu'n ymarfer gwahanol ffyrdd o weithio i gydymffurfio â'u mesurau cadw pellter cymdeithasol eu hunain. Yn yr un modd, mae llawer o arweinwyr UCDau yn mynegi pryderon nad yw seicolegwyr a gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol yn gweld disgyblion wyneb yn wyneb o hyd, fel yr oeddent o'r blaen. Maent yn credu bod hyn yn rhwystro datblygiad disgyblion mewn meysydd allweddol ac yn arafu cynnydd yn unol â thargedau yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau).

Ar draws yr holl leoliadau lle dyrannwyd y cyllid recriwtio, adfer a chodi safonau, mae arweinwyr yn nodi'r amrywiad eang yn y symiau a ddosberthir ar draws gwahanol sectorau ac ysgolion yng Nghymru. Mae llawer ohonynt yn mynegi pryderon am effaith bosibl y swm yr oeddent wedi'i gael dros dro. Mewn mwyafrif o ysgolion arbennig ac UCDau, dywed arweinwyr eu bod yn bwriadu defnyddio'r cyllid i gyfrannu at benodi aelod ychwanegol o staff i gyflwyno pecynnau ymyrraeth teilwredig mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd a lles.

## Canfyddiadau manwl

### Hyrwyddo lles

#### Lles dysgwyr

Dywed arweinwyr bron ym mhob ysgol arbennig a gynhelir ac UCD fod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus, eu bod yn falch o gael ailafael mewn rhyw fath o normalrwydd ac yn hapus i fod yn ôl gyda'u cyfoedion a staff cyfarwydd yr ysgol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr o'r farn fod disgyblion wedi ailymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu ac maent wedi addasu'n dda i newidiadau yn yr amgylchedd dysgu, fel mynedfeydd newydd, symud o gwmpas yr adeilad a mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Mae llawer o arweinwyr yn nodi eu bod yn parhau â dulliau llwyddiannus a oedd ar waith i gefnogi lles disgyblion yn ystod y cyfnod cau ysgolion. Er enghraifft, yn y cyfnod cychwynnol, bu llawer o leoliadau yn cydweithio â staff arbenigol yn yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i broffilio disgyblion yn unol â'u lefel bregusrwydd. Mae lleoliadau wedi parhau i ddefnyddio'r proffilio bregusrwydd hwn i flaenoriaethu'r cymorth ar gyfer teuluoedd disgyblion o fis Medi.

Mae bron pob arweinydd ar draws ysgolion arbennig ac UCDau yn disgrifio'r modd y rhoesant drefniadau ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â disgyblion a theuluoedd yn ystod y cyfnod cau. Mae llawer ohonynt yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu ar y dull hwn i gadw cyfathrebu rheolaidd a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn helpu i leddfu gorbryder disgyblion a rhieni ynglŷn â dychwelyd i addysg. Er enghraifft, trefnodd un ysgol arbennig arolwg rhieni i gasglu eu barn cyn i ddisgyblion ddychwelyd. Wedyn, bu'r ysgol yn datblygu pecynnau teilwredig i gynorthwyo teuluoedd a fynegodd orbryder ynglŷn ag anfon eu plant yn ôl i'r ysgol. Mewn un UCD, mae cydweithio rhwng y swyddog cymorth cartref a'r swyddog lles addysg wedi arwain at berthnasoedd gwell gyda theuluoedd, yn enwedig y rhai a oedd yn anodd eu cyrraedd o'r blaen. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion sydd

wedi ymddieithrio a oedd yn gwrthod dychwelyd i'r ysgol bellach yn mynychu'n rheolaidd.

Mae arweinwyr mewn un UCD yn priodoli pontio cadarnhaol gan ddisgyblion yn ôl i'r UCD i'r ffaith eu bod wedi cynnal cyswllt agos rheolaidd gyda'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd trwy gydol y cyfnod pan oedd yr ysgol ar gau. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd staff yr UCD wiriadau lles ddwywaith yr wythnos ar bob disgybl a'u teuluoedd. Yn ychwanegol, bu staff yn darparu sesiynau anogaeth ar-lein i ddisgyblion ac yn amlygu cysylltiadau â gweithgareddau lles a oedd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ofalgar ac ymarfer corff ar wefan yr UCD.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â phresenoldeb disgyblion gyda sensitifrwydd. Er bod cyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion mewn ysgolion arbennig yn amrywiol ar ddechrau'r tymor, dywed arweinwyr eu bod wedi gwella'n gyson ers hynny. Mewn llawer o UCDau, dywed arweinwyr fod cyfraddau presenoldeb yn uchel ar ddechrau'r tymor, ond eu bod wedi gostwng ers hynny. Os oedd gan ddisgyblion hanes o bresenoldeb gwael, nid yw hyn wedi gwella ers dechrau'r tymor.

Pan fydd gorbryder rhieni yn rhwystr rhag presenoldeb, mae lleoliadau'n gweithio gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo teuluoedd a chytuno ar gynllun pontio i gefnogi'r disgybl yn ôl i'r ysgol. Dywed ychydig iawn o leoliadau eu bod wedi addasu eu systemau gwobrwyo, sydd wedi helpu gwella presenoldeb ac ymgysylltu er mis Medi.

Dywed llawer o arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau fod arbenigedd aelodau staff wedi bod yn allweddol o ran hyrwyddo cyfnod dychwelyd diogel a hapus i ddisgyblion. Mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion arbennig yn disgrifio'r modd y mae staff wedi gweithio'n sensitif i gynorthwyo disgyblion ag anghenion meddygol cymhleth i ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel ac yn briodol. Er enghraifft, trefnodd un arweinydd i ddisgyblion mwy agored i niwed yr ysgol ddychwelyd yn raddol er mwyn iddynt allu adeiladu'n raddol ar yr amser roeddent yn ei dreulio yn yr ysgol.

Mewn un ysgol arbennig, mae llawer o staff wedi cael hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni ymyrraeth gymdeithasol ac emosiynol i gefnogi ymrwymiad yr ysgol i arfer sy'n ystyriol o drawma. Mae tîm cymorth sbectrwm awtistig yr awdurdod lleol wedi'i gyd-leoli yn yr ysgol, ac mae staff wedi defnyddio storïau cymdeithasol a strategaethau eraill a ddarperir gan y gwasanaeth i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion â chyflwr y sbectrwm awtistig (CSA).

Mae arweinwyr mewn llawer o leoliadau yn sôn am y modd y mae staff wedi rhoi mesurau ar waith y tymor hwn i sefydlu gwaelodlin gywir o les pob disgybl. Mae staff yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys cofnodion ymddygiad, data presenoldeb, rhyngweithio cymdeithasol ac arsylwadau proffesiynol, i nodi anghenion anogaeth disgyblion. Yn ychwanegol, mae disgyblion mewn ychydig o UCDau yn llenwi holiaduron i werthuso eu lles emosiynol. Mae hyn yn helpu arweinwyr i nodi meysydd i'w datblygu a chyflwyno disgyblion yn araf ond yn llwyddiannus yn ôl i ddysgu ffurfiol.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio’r modd y maent wedi gwneud newidiadau i arferion dyddiol ysgol a’r amgylchedd dysgu ffisegol i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer iechyd corfforol ac emosiynol disgyblion. Yn gyffredinol, mae dosbarthiadau’n gweithio fel “swigod” sefydledig ac nid yw’r swigod hyn yn cymysgu ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion arbennig, noda arweinwyr y modd y mae’r addasiadau hyn wedi lleihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, ac wedi effeithio ar fynediad arferol at weithgareddau therapiwtig arbenigol fel hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd a therapi adlam. Mae ychydig o arweinwyr yn disgrifio’r modd y mae staff addysgu wedi ymateb yn greadigol i’r cyfyngiadau hyn. Er enghraifft, mae un ysgol arbennig wedi prynu trampolinau bach ar gyfer pob ystafell ddosbarth i ddarparu’r cyfle ar gyfer gweithgarwch corfforol.

Disgrifia llawer o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau y modd y maent wedi gwneud mwy o ddefnydd o’u cyfleusterau dysgu yn yr awyr agored i hyrwyddo lles disgyblion ers mis Medi. Mae lleiafrif o UCDau wedi creu ardaloedd fel seddi y tu allan mewn gerddi bach neu maent wedi prynu offer chwaraeon awyr agored ychwanegol. Dywed arweinwyr mewn ychydig o UCDau fod gweithgareddau dysgu corfforol yn datblygu cryfder eu darpariaeth ar y safle gan fod disgyblion yn mwynhau’r cyfle i ddysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nododd llawer o arweinwyr fod cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu yn yr awyr agored oddi ar y safle wedi lleihau o ganlyniad i’r pandemig.

Mae un UCD wedi gwneud sawl newid i’w chwricwlwm a’i hamgylchedd dysgu yn ystod misoedd yr haf. Gwnaed gwaith sylweddol ar yr ardal y tu allan sydd bellach yn cynnwys ardal pêl-droed a thrampolîn. Mae’r UCDau yn cynnig gwersi ffotograffiaeth erbyn hyn. Ceir parth therapi celf newydd ac offerynnau cerdd ac offer ychwanegol i gefnogi datblygiad creadigol disgyblion. Mae ci therapi wedi’i hyfforddi’n arbennig yn gweithio gyda disgyblion ddeuddydd yr wythnos yn y ganolfan. Dywed y pennaeth fod disgyblion yn gadarnhaol iawn ynglŷn â chyflwyno’r ci therapi, a’u bod yn mwynhau gofalu amdano, a mynd ag ef am dro.

Er y dywed llawer o arweinwyr UCDau bod achosion o ymddygiad gwael yn is na’r arfer a bod disgyblion yn falch o fod yn ôl mewn amgylchoedd cyfarwydd, ar y cyfan, maent yn nodi pryderon ynghylch iechyd emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion. Mae llawer ohonynt yn disgrifio’r modd y maent yn gweld tystiolaeth gynyddol o’r trawma cymdeithasol ac emosiynol a brofwyd gan ddisgyblion yn ystod cyfnod cau ysgolion wrth i’r tymor fynd rhagddo.

Mae arweinwyr mewn llawer o leoliadau yn cadarnhau ei bod yn ymddangos y bu cyfleoedd i staff a disgyblion rannu eu teithiau yn ystod y cyfnod clo yn fuddiol o ran nodi ac ymateb i bryderon cyffredin disgyblion a staff ynghylch lles. Erbyn hyn, mae llawer o leoliadau yn neilltuo mwy o amser ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol fel amser cylch, fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i siarad am eu profiadau a chyfleu eu teimladau. Mewn ychydig o leoliadau, mae staff wedi cael cipolygon ar les eu disgyblion trwy’r gweithgareddau hyn, ac yn cynllunio ymyriadau yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

## Lles staff

Cadarnha bron pob arweinydd ar draws y ddau sector bod cynnal lles staff yn flaenoriaeth allweddol ers dechrau'r cyfnod cau ysgolion. Mae'r pryderon hyn wedi newid o ran natur ers ailagor ym mis Medi, ond mae angen gwyliadwriaeth a rheolaeth ofalus o hyd ar ran uwch arweinwyr. Mae llawer o arweinwyr yn datgan gwaith caled ac ymroddiad personol eu staff yn ystod y cyfnod hwn, a'u parodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i newidiadau rheolaidd yn yr hyn a ofynnwyd ohonynt yn eu rolau.

Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod y rhan fwyaf o staff yn iach, a bod rhai ohonynt yn gwarchod eu hunain o ganlyniad i'w cyflyrau iechyd isorweddol eu hunain neu aelodau eraill o fewn eu haelwyd. Ym mhob lleoliad, mae'r rhan fwyaf o aelodau staff wedi dychwelyd i'w rolau arferol ers ailagor. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr arweinwyr yn cyfeirio at yr her o ran rheoli patrymau parhaus o absenoldeb staff, er enghraifft dod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer cydweithwyr sydd wedi cymryd amser i ffwrdd o'r ysgol er mwyn rheoli eu gofynion gofal plant eu hunain pan gânt eu hanfon adref o'r ysgol.

Er bod ychydig o aelodau staff yn bryderus ynglŷn â dychwelyd i'w lleoliadau ar y dechrau, dywed arweinwyr fod y rhan fwyaf o staff bellach yn hyderus, yn dawelach eu meddwl ac yn 'hapus i fod yn ôl'. Disgrifia arweinwyr ystod o strategaethau maent wedi'u rhoi ar waith i gefnogi lles staff a rheoli gorbryderon, gan gynnwys llunio arolygon lles staff i gadarnhau lefelau gorbryder, gan rannu'r un fideo yn amlinellu gofodau cadw pellter cymdeithasol a mannau diheintio gyda disgyblion a staff yn yr un modd, a chyfarfodydd unigol yn ôl i'r gwaith gydag uwch arweinwyr i drafod unrhyw bryderon. Mae gan un ysgol arbennig grŵp lles staff, sydd â chynrychiolaeth o blith staff, uwch arweinwyr a llywodraethwyr.

## Lles arweinwyr

Sonia bron pob arweinydd ysgol arbennig ac UCD am yr heriau maent wedi'u hwynebu er mis Medi o ran sicrhau cydbwysedd o ran heriau dyddiol i weithredu mewn ffordd mor arferol ag y bo modd mewn cyfnod eithriadol, tra'n paratoi gweithgareddau priodol hefyd ar gyfer disgyblion sy'n hunanynysu, a chynllunio ar gyfer ail gyfnod posibl o gau ysgolion. Dywed llawer o arweinwyr eu bod wedi bod ar alwad 7 diwrnod yr wythnos, a thrwy gydol y gwyliau ysgol. Trwy gydol y cyfnod hwn, bu'n ofynnol iddynt ymateb yn brydlon i amgylchiadau ac arweiniad yn newid yn gyflym. Yn fwyaf diweddar, maent wedi ymgymryd â chyfrifoldeb am weithredu systemau olrhain cysylltiadau ar gyfer aelodau o gymuned yr ysgol sy'n cael canlyniad positif. Mae llawer o arweinwyr o'r farn fod hyn wedi golygu bod uwch arweinwyr wedi blino'n lân ac wedi'u paratoi'n wael ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd newydd. Mae llawer o arweinwyr yn mynegi pryderon sylweddol am gynaliadwyedd y ddarpariaeth a chapasiti'r ysgol a'r grŵp staff ehangach i barhau i weithio yn y modd hwn am gyfnod amhenodol.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau yn dweud eu bod wedi elwa'n sylweddol o gefnogaeth eu hawdurdod lleol i ddelio â materion iechyd a diogelwch. Maent yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth ymarferol a'r arweiniad clir y

maent wedi'u cael. Er enghraifft, darparodd awdurdodau lleol arweiniad ar asesiadau sig, arwyddion cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol angenrheidiol. Mewn un ysgol arbennig, disgrifa'r pennaeth y modd y mae hyn wedi cynnwys cyflenwad o orchuddion wyneb ar gyfer staff sy'n gweithio gyda disgyblion y mae angen gweithdrefnau erosol neu sugno arnynt. Barna ychydig o arweinwyr bod glynu'n gaeth at asesiadau risg ac argaeledd cyfarpar diogelu personol yn magu hyder staff ac yn lleddfu eu gorbryderon. Yn gyffredinol, ar draws yr holl leoliadau, mae disgyblion yn ymateb yn dda i staff sy'n gwisgo cyfarpar diogelu personol.

Disgrifia bron pob arweinydd y modd y mae staff yn gweithio'n eithriadol o galed i gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r modd y bu timau staff yn greadigol ac yn arloesol yn y ffordd y maent wedi paratoi disgyblion ar gyfer y newidiadau hyn. Mae hwn yn faes hynod heriol i ysgolion arbennig ac UCDau sydd â disgyblion ag anawsterau corfforol neu emosiynol sylweddol, gan gynnwys y rhai ag anghenion gofal personol neu sydd ag ymddygiad risg uchel fel poeri neu daro.

Mynega llawer o arweinwyr ar draws y ddau leoliad siom, ac weithiau rhwystredigaeth, nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru i ysgolion ynghylch mesurau iechyd a diogelwch bob amser yn addas nac yn fuddiol ar gyfer ysgolion arbennig ac UCDau. Maent yn nodi bod ystafelloedd dosbarth mewn rhai unedau cyfeirio disgyblion yn rhy fach i alluogi pob disgybl i fod yn bresennol a glynu at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol, ac o ganlyniad i hyn, efallai na fydd disgyblion yn cael addysg amser llawn. Yn yr un modd, mewn ysgolion arbennig, gallai fod yn anodd i staff gynnal pellter diogel oddi wrth ddisgyblion nad ydynt yn deall rheolau cadw pellter cymdeithasol na'r rhesymau amdanynt.

Mae ychydig o arweinwyr yn nodi y bu'n hynod heriol i ysgolion pan fydd rhaid iddynt ystyried dwy set o arweiniad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (yn gysylltiedig â gofal) a Llywodraeth Cymru (yn gysylltiedig ag addysg). Mae datrys y gwrthdaro rhyngddynt wedi bod yn her, yn enwedig lle nad yw'r union amgylchiadau yn gysylltiedig â phlentyn yn adlewyrchu'r arweiniad. Er bod swyddogion awdurdodau lleol yn gallu helpu â'r drafodaeth, rhaid i'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wneud y penderfyniadau terfynol. Cadarnha arweinwyr bod llawer yn y fantol o ran y penderfyniadau hyn sy'n ymwneud â disgyblion sydd â lefelau uchel o anghenion meddygol, a bod hyn wedi achosi llawer o orbryder iddynt, a'u rhoi dan bwysau.

## Hyrwyddo dysgu

### Dysgu o bell / dysgu cyfunol

Mae bron pob arweinydd ysgol arbennig ac UCD yn cadarnhau mai eu prif flaenoriaeth ar ddechrau'r cyfnod cau ysgolion fu rhoi strategaeth ar waith ar gyfer dysgu o bell a fyddai'n darparu ar gyfer galluoedd ac anghenion hynod amrywiol pob disgybl yn yr ysgol. Yn ychwanegol, cyfeiriodd llawer o arweinwyr at yr heriau sy'n wynebu llawer o rieni a gofalwyr o ran cefnogi dysgu eu plant gartref, naill ai oherwydd cymhlethdod anghenion eu plant, diffyg medrau i gefnogi dysgu, gan gynnwys medrau digidol, neu fynediad cyfyngedig at offer TGCh.

Mewn ychydig o achosion, disgrifia arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau y modd yr oeddent wedi rhagweld y cyfnod swyddogol cau ysgolion i ystyried eu dulliau dysgu o bell. Er enghraifft, mae arweinwyr UCDau yn disgrifio'r modd yr oeddent

wedi dechrau paratoi rhieni a disgyblion ar gyfer symud i ddysgu o bell. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein, a datblygu medrau staff wrth gynllunio gweithgareddau dysgu a gwersi ar-lein.

Pan oedd gan leoliadau ddarpariaeth ddatblygedig eisoes ar gyfer TGCh, mae arweinwyr yn nodi mai'r brif her fu addasu adnoddau a oedd eisoes ar waith, a chyfathrebu'n glir ynglŷn â'r cynnig dysgu gartref. Yn y lleoliadau hyn, roedd disgyblion yn gyfarwydd â phlatfformau dysgu ar-lein, ac roedd set medrau a hyder staff yn uchel.

Mewn un UCD, nododd y pennaeth yr elfennau canlynol sydd, yn ei barn hi, wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ymgysylltiad disgyblion â dysgu yn ystod y cyfnod cau ysgolion:

- Roedd disgyblion wedi eu paratoi'n dda cyn y cyfnod cau ysgolion o ran defnyddio dysgu ar-lein, ac roedd y platfform digidol eisoes wedi ennill ei blwyf, ac yn weithredol.
- Roedd staff yn ddigidol fedrus ac yn defnyddio'r wybodaeth a'r set medrau hyn yn rhagweithiol i ymgysylltu â disgyblion.
- Roedd gwiriad ar-lein dyddiol â disgyblion yn cefnogi lles disgyblion ac yn atgyfnerthu eu hymgysylltiad â dysgu a pherthnasoedd gweithio staff.
- Datblygodd y staff weithgareddau dysgu ar-lein i ymgysylltu â disgyblion a rhieni. Fe wnaethant dargedu gweithgareddau ynglŷn â thestunau roedd gan rieni brofiad ohonynt, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn gallu cefnogi dysgu eu plentyn yn well. Er enghraifft, roedd testunau'n cynnwys cestyll lleol a Harry Potter.
- Darparodd yr UCD becynnau caled o weithgareddau dysgu i ychwanegu at ddysgu'r disgyblion.

Nododd llawer o arweinwyr ar draws ysgolion arbennig ac UCDau mai rhan hanfodol o'u gwaith paratoadol fu sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio offer TGCh priodol, a bod ganddynt gysylltedd er mwyn iddynt allu dysgu o gartref. Yn aml, roedd staff yn y lleoliadau hyn yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i nodi disgyblion nad oedd ganddynt fynediad at offer a dosbarthu dyfeisiau i ddisgyblion a'u teuluoedd. Esbonia penaethiaid mewn ychydig o ysgolion arbennig y modd y mae hyn wedi cynnwys rhoi benthyg technoleg i gynorthwyo cyfathrebu fel switshys a thechnoleg olrhain llygaid i hwyluso cyflawni eu nodau cyfathrebu a dysgu gartref.

Pan oedd defnydd lleoliadau o TGCh fel dull dysgu yn llai datblygedig, pwysleisiodd llawer o arweinwyr yr anawsterau o ran nodi ar fyr rybudd un platfform a oedd yn diwallu ystod eang anghenion eu holl ddisgyblion. Yn gyffredinol, mabwysiadodd lleoliadau gyfuniad o blatfformau a oedd yn adlewyrchu orau allu disgyblion a'u teuluoedd i ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, bu staff yn cyfleu gweithgareddau wedi'u cynllunio a deilliannau dysgu gyda rhieni a gofalwyr trwy blatfformau cyfathrebu ar-lein, neu'n lanlwytho fideos wedi'u recordio ymlaen llaw o weithgareddau dysgu i wefan yr ysgol neu blatfformau ar-lein eraill. Mewn llawer o achosion, disgrifiodd arweinwyr mai'r flaenoriaeth fu darparu trefn a strwythur i rieni eu dilyn gartref. Mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, roedd staff yn darparu

cymorth i rieni ar sut i ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein, er enghraifft ar ffurf cymorth personol uniongyrchol neu lyfrynnau gwybodaeth.

Cadarnha llawer o arweinwyr mai prif bryder o'r cychwyn fu sicrhau bod cyflwyniad a chynnwys platfformau dysgu ar-lein yn hygyrch a difyr. Fe wnaeth ychydig o arweinwyr ar draws y ddau leoliad ddisgrifio ymhellach sut roeddent wedi cyflwyno systemau gwobrau i hyrwyddo ymgysylltiad disgyblion.

I ddechrau, y brif her i un UCD oedd sicrhau bod gan ddisgyblion yr offer i allu dysgu ar-lein. Y flaenoriaeth nesaf oedd sicrhau bod disgyblion yn gallu mynd at blatfform dysgu ar-lein a oedd yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hygyrch, o ystyried yr amharodrwydd a oedd yn wynebu llawer o ddisgyblion wrth ymgysylltu'n annibynnol â dysgu. I gyflawni hyn, adolygodd yr UCD ei gwefan i'w galluogi i gynnal ei hwb dysgu o bell. Trwy gydol y cyfnod cau ysgolion, defnyddiodd athrawon yr hwb i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gweld y trosolwg ar gyfer pob hanner tymor. Fe wnaethant osod gweithgareddau dysgu ar gyfer eu disgyblion bob dydd Llun, a lanlwytho sesiynau tiwtorial ar fideo i esbonio'r gwaith. Ysgrifennodd pob athro flog rheolaidd o dan ei hunaniaeth emoji bersonoledig ei hun i gynnal cyswllt, annog, a 'chadw pethau'n ysgafn a hygyrch'. Yn ychwanegol, darparodd yr UCD ganllaw dysgu o bell ar gyfer rhieni, a chyfarwyddiadau cam wrth gam i roi gwybod i ddisgyblion sut i fewngofnodi a mynd at y gwaith. Cadarnhaodd arweinwyr fod y camau hyn wedi helpu sicrhau lefel well o ymgysylltu â dysgu ar-lein na'r hyn roeddent wedi'i ragweld ar ddechrau cau'r UCD.

Ychydig o arweinwyr yn unig sy'n cyfeirio at y ffaith iddynt ddatblygu dull cyson o ran ffrydio byw. Pan oeddent wedi gwneud hynny, ffocws y sesiynau hyn yn bennaf oedd darparu cyfle i ddisgyblion gysylltu â'u hathrawon, neu gefnogi anghenion arbenigol neu therapiwtig disgyblion. Er enghraifft, darparodd un ysgol arbennig storïau synhwyraidd rhyngweithiol a sesiynau symbolau iaith wedi'u cyflwyno gan gynorthwywyr lleferydd ac iaith, tra oedd UCD yn darparu sesiynau anogaeth ar-lein.

Mewn un ysgol arbennig, fe wnaeth rhiant gynnal sesiwn cyfathrebu synhwyraidd i blentyn a oedd yn absennol o'r ysgol. Cyflwynodd gweithiwr cymorth cartref yr ysgol adnoddau i'r rhiant gartref cyn y sesiwn gyda'r dosbarth. Dilynodd y rhiant ar-lein wrth ymuno â'r plentyn, gan ddilyn symudiadau'r athro a'r cynorthwywyr cymorth dysgu wrth i'r sesiwn gael ei chyflwyno i weddill y dosbarth.

Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cadarnhau eu bod yn darparu cyfuniad o ddysgu ar-lein a 'phecynnau caled' o adnoddau a gweithgareddau dysgu i ddisgyblion a oedd yn cael trafferth neu ddim yn gallu ymgysylltu â dysgu ar-lein. Mewn llawer o achosion, roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys tasgau ymarferol, neu roedd ganddynt bwyslais cryf ar les disgyblion, er enghraifft i hyrwyddo ymarfer corff, symud neu fedrau annibyniaeth. Mewn ychydig o achosion, nododd lleoliadau i ddechrau mai dysgu all-lein yw'r strategaeth maent yn ei ffafrio ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan ddatblygu elfennau o ddarpariaeth ar-lein yn raddol i ddiwallu anghenion unigolion neu grwpiau ar wahân o ddisgyblion dros gyfnod.

Roedd ychydig o arweinwyr yn honni'n gryf nad oedd darpariaeth ar-lein yn briodol i ddiwallu anghenion eu disgyblion. Cadwodd y lleoliadau hyn ddull all-lein trwy gydol cyfnod cau'r ysgol neu'r UCD.

Dywed llawer o arweinwyr eu bod yn parhau i addasu a mireinio dulliau dysgu o bell i ymateb i adborth disgyblion a rhieni trwy gydol y cyfnod cau ysgolion ac UCDau. Yn gyffredinol, roedd rhieni a disgyblion yn darparu'r adborth hwn ar lafar yn ystod y sgyrsiau mynych a gynhaliwyd gyda theuluoedd yn ystod y cyfnod hwn. Disgrifia ychydig iawn o arweinwyr sut roeddent wedi defnyddio arolygon i gasglu adborth rhieni er mwyn gwerthuso beth oedd yn gweithio'n dda, a nodi meysydd i'w gwella.

Mewn un UCD, dywedodd y pennaeth fod arolygon yn cael eu hanfon at rieni i nodi sut gallai staff wella'r cymorth a gynigir, a beth oedd y prif rwystrau rhag dysgu ar-lein i ddisgyblion a theuluoedd. Dangosodd deilliannau'r arolwg mai'r prif rwystr oedd diffyg hyder rhieni mewn defnyddio'r dechnoleg. I ymateb i hynny, lluniodd staff gyfres o ffeithlenni ar ddefnyddio'r platfform ar-lein, a oedd ar gael ar wefan yr ysgol, ac yn cael eu cyflwyno ar ffurf copi caled i bob teulu. Cadarnhaodd y pennaeth fod y gwaith hwn wedi helpu gwella hyder rhieni a lefelau ymgysylltu â dysgu ar-lein dros gyfnod.

**Dysgu o fis Medi**

Bron ym mhob achos, dywed arweinwyr, ers i ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi, eu bod wedi canolbwyntio ar ailintegreiddio disgyblion yn ddiogel, ailsefydlu perthnasoedd a helpu disgyblion i addasu yn unol ag arferion a threfniadau newydd i hyrwyddo eu hiechyd a'u diogelwch, yn ogystal â diogelwch y staff sy'n gweithio gyda nhw. Yn gyffredinol, dywed arweinwyr fod disgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r trefniadau newydd hyn, ac wedi cael dechrau llwyddiannus i'r tymor newydd.

Mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn disgrifio sut maent yn defnyddio'r amser hwn i ailasesu lefelau cyflawniad presennol disgyblion, a nodi unrhyw achosion o lithro'n ôl yn nysgu neu les disgyblion. Mewn llawer o leoliadau, defnyddia staff dull graddol o ailgyflwyno dulliau dysgu a sefydlwyd o'r blaen, gan ganolbwyntio yn hytrach ar weithgareddau sy'n hyrwyddo lles ac ymgysylltu. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys dyrannu amser cwricwlwm ychwanegol ar gyfer gweithgareddau fel garddio, ymarfer corff a gweithgareddau creadigol, yn ogystal â sesiynau lles un i un, pan fydd angen.

Mewn llawer o ysgolion arbennig yn benodol, mae arweinwyr yn disgrifio symud pwyslais o fewn y cwricwlwm at brofiadau dysgu sy'n annog archwilio, rhyngweithio cymdeithasol a symudiadau corfforol, er enghraifft trwy chwarae strwythuredig, ymarferion adeiladu tîm a dysgu yn yr awyr agored. Dywed ychydig o arweinwyr ysgolion arbennig nad ydynt yn rhagweld y bydd eu hysgolion yn dychwelyd at ddysgu ffurfiol am gryn amser, neu o leiaf hyd nes bydd gostyngiad mewn ansicrwydd presennol, yn enwedig mewn perthynas â materion ynglŷn â chysondeb staffio.

Mewn un ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, cadarnhaodd y pennaeth mai'r prif ffocws ar gyfer yr ysgol ar hyn o bryd yw darparu profiadau dysgu sy'n hyrwyddo lles disgyblion ac yn meithrin gwydnwch a hunan-barch, yn hytrach nag ailsefydlu'r cwricwlwm fel ag yr oedd cyn y cyfnod cau ysgolion. Mae amserlenni bellach yn cynnwys llai o addysgu mewn ystafelloedd dosbarth, a mwy o weithgareddau corfforol ac ymarferol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored, coginio, beicio, a chynnal a chadw cerbydau modur. Mae'r ysgol yn parhau i ddarparu gwersi ar wahân ar lythrennedd a rhifedd, fodd bynnag, mae staff hefyd yn ymdrechu i integreiddio a datblygu'r rhain trwy weithgareddau ymarferol ble bynnag y bo modd, er enghraifft defnyddio pwysau a mesuriadau wrth goginio. Mae'r ysgol yn cynnal cyfres o ddiwrnodau gweithgareddau ysgol gyfan i adeiladu gwaith tîm trwy gyfleoedd fel dringo wal, y 'naid ffydd' ('leap of faith'), a saethyddiaeth. Nod yr ysgol yw annog disgyblion ar draws yr ysgol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu hymgysylltu, eu medrau cyfathrebu, a meithrin ymdeimlad o gymuned sy'n cwmpasu disgyblion a staff.

Mewn llawer o UCDau, dywed arweinwyr, er y bu'r pwyslais cychwynnol ar ailgysylltu â disgyblion, fod llawer o ddisgyblion bellach yn ail-ymgysylltu â dysgu, sydd wedi galluogi staff i ailafael mewn dulliau sydd wedi ennill eu plwyf o ran y cwricwlwm.

Cadarnhaodd pennaeth un UCD fod cynlluniau ar gyfer dysgu'r tymor hwn yn cael eu dylanwadu'n gryf gan y gwersi a ddysgwyd yn y sesiynau 'ailgydio a dal i fyny' a gynhaliwyd ar ddiwedd y cyfnod cau ysgolion ym mis Gorffennaf. Ar yr adeg hon, dychwelodd tua chwarter y disgyblion i'r UCD, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn mynychu'n rheolaidd. Disgrifiodd y pennaeth ymateb disgyblion i ddychwelyd fel 'mae bron fel pe na bai wedi digwydd'. Fe wnaethon nhw groesawu'r dychwelyd i arferion yr UCD, ac arddel y cyfle i wneud tasgau a phynciau cyfarwydd fel llythrennedd a mathemateg, gan fod hynny'n weithred o ddychwelyd i'w trefn arferol a dihangfa oddi wrth 'normal newydd' COVID-19. Esboniodd y pennaeth fod staff wedi dysgu o'r profiad hwn, ac felly roeddent yn bwriadu adfer ymdeimlad o drefn a diben ar gyfer disgyblion a staff. O ganlyniad, mae'r UCD wedi defnyddio'i dull arferol o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y tymor hwn, gan gynnal y cwricwlwm llawn, yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg awyr agored oddi ar y safle sydd wedi cael asesiad risg, ble bynnag y bo modd.

Mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, dywed arweinwyr fod ystyriaethau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â COVID-19 yn cynnig mynediad cyfyngedig at agweddau pwysig ar gwricwlwm y lleoliad. Er enghraifft, mae ysgolion arbennig wedi cwtogi ar gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer medrau annibyniaeth yn y gymuned. Yn yr un modd, mae mesurau i hyrwyddo symud disgyblion yn ddiogel o gwmpas yr adeilad wedi arwain at lai o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwersi y tu allan i'w hystafell ddosbarth arferol, fel addysg gorfforol a cherddoriaeth. Mewn llawer o UCDau, nododd arweinwyr y bu colegau addysg bellach neu ddarparwyr hyfforddiant yn araf i ailagor neu adfer mynediad disgyblion at leoliadau, gan gyfyngu ar lwybrau cymhwyster i ddisgyblion hŷn, yn enwedig y rhai ym Mlwyddyn 11 ac mewn adrannau ôl-16.

Mewn ychydig o achosion, disgrifia arweinwyr y modd y mae staff yn gweithio gyda darparwyr allanol i'w helpu i ail-greu'r profiadau hyn ar y safle cystal ag y gallant. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig, mae arweinwyr a staff wedi ehangu i gynnal gweithgareddau ymarferol ar y safle i ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni gofynion cymhwyster. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys garddio, siop yr ysgol, a darparu profiad gwaith yn swyddfeydd yr ysgol.

Mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, mae staff yn parhau i addasu adnoddau a datblygu dulliau dysgu cyfunol yn seiliedig ar eu gwerthusiad o'r hyn a weithiodd yn dda yn ystod cyfnod cychwynnol cau ysgolion. Yn y lleoliadau hyn, mae arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae staff yn paratoi cronfeydd o ddeunyddiau dysgu a chynlluno i sicrhau bod gwersi'n gallu cael eu cyflwyno ar-lein. Er enghraifft, mae staff yn ymgorffori'r defnydd o blatfformau dysgu ar-lein yn ystod gwersi. Maent yn parhau i ddatblygu medrau a hyder disgyblion yn defnyddio'r dull hwn trwy sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i fewngofnodi, a sut i fynd at wersi wedi'u recordio ymlaen llaw. Dywed llawer o arweinwyr fod medrau staff yn cynyddu wrth gynllunio a chyflwyno dysgu ar-lein.

Mae arweinwyr ym mwyafrif yr ysgolion arbennig y cysylltwyd â nhw yn disgrifio'n fanwl sut maent wedi adeiladu ar y gwerthusiad hwn i ddatblygu dulliau dysgu cyfunol i ddiwallu anghenion disgyblion y mae'n rhaid iddynt hunanynysu, y rhai nad ydynt wedi dychwelyd i'r ysgol, neu i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion os bydd cyfnod o gau ysgolion yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae ychydig o UCDau yn archwilio sut gallent ddarparu dull dysgu cyfunol i gynorthwyo disgyblion sy'n cael gwersi gartref neu sy'n mynychu'n rhan-amser.

Ers i ddisgyblion ddychwelyd i un UCD, bu ffocws cynyddol ar wella medrau'r holl ddisgyblion mewn defnyddio TGCh a phlatfformau ar-lein. Caiff yr holl ddisgyblion o leiaf un wers ar-lein yr wythnos ar y safle fel y gall staff gefnogi unrhyw bryderon a heriau. Dywed y pennaeth fod pob un o'r disgyblion yn mewngofnodi i'w cyfrif a'u bod yn dechrau magu hyder mewn dysgu ar-lein. Mae staff wedi datblygu adnoddau i gefnogi disgyblion mewn defnyddio'r offer TGCh, y gallant ei rannu â rhieni. Pan nad yw disgyblion wedi gallu ymgymryd â gweithgareddau a chymwysterau yn y gwaith, mae darparwyr yn dechrau rhannu adnoddau â staff y UCD sy'n cefnogi disgyblion i gwblhau'r gwaith hwn ar-lein.

Mewn un ysgol arbennig, mae arweinwyr wedi darparu arweiniad ar gyfer staff ar strwythuro dysgu o bell ar gyfer disgyblion sy'n dysgu gartref. Mae hyn yn cynnwys cael calendr digwyddiadau, heriau a gweithgareddau y gellir ei ddefnyddio gartref. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi llunio drafft o amserlen enghreifftiol i rieni ei defnyddio. Y bwriad yw y bydd hyn yn cynorthwyo rhieni ac yn darparu rhywfaint o strwythur i'r diwrnod, ac yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer amseru gweithgareddau sy'n gydnaws â'r ffocws tymhorol ar les.

Ers ailagor un ysgol arbennig, mae staff yn parhau i ddatblygu'r defnydd o blatfform cyfathrebu addysgol ar draws carfan lawn y disgyblion. Mae'r ysgol wedi adolygu ei dogfennau cynllunio gan amcanu at symleiddio'r rhain fel y gallant ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd lluosog, gan gynnwys staff addysgu yn yr

ysgol, a rhieni gartref. Pan na all disgyblion fynd i'r ysgol, caiff cynlluniau sesiwn eu lanlwytho i'r ap, fel y gall rhieni eu defnyddio gartref, ac er mwyn gallu rhoi tystiolaeth o ddeilliannau dysgu a'u hasesu yn unol â meini prawf clir, a rennir. Mae'r datblygiad hwn wedi golygu bod athrawon bellach yn cynllunio unwaith yn unig, ac nid ydynt yn creu gwersi a deunyddiau ar gyfer disgyblion gartref yn ogystal â chynllunio ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.

Cadarnha llawer o ysgolion arbennig eu bod wedi cryfhau'r defnydd o blatfformau cyfathrebu addysgol i gyfathrebu â rhieni am weithgareddau a chynnydd disgyblion. Mae ychydig o ysgolion yn nodi, pan mae rhieni wedi defnyddio'r platfformau hyn i lanlwytho a rhannu deilliannau gweithgareddau dysgu, bod hyn wedi helpu'r ysgol i fonitro dysgu a chyflawniadau disgyblion, ac wedi rhoi adborth i ddisgyblion a theuluoedd. Mewn ychydig o achosion, mae'r dulliau hyn wedi disodli prosesau a sefydlwyd yn flaenorol fel y llyfr cartref-ysgol.

Mewn un ysgol arbennig, disgrifiodd y pennaeth y modd mae'r ysgol bellach yn defnyddio platfform cyfathrebu ar-lein a negeseuon testun i gyfathrebu â rhieni am gynnydd disgyblion, yn hytrach na defnyddio dyddiaduron cartref-ysgol. Mae staff yn gweld bod y dull hwn yn cynhyrchu lefelau uwch o ymgysylltu gan rieni. Mae'n priodoli hyn i'r ffaith fod y dull hwn yn galluogi i'r wybodaeth mae'r ysgol yn ei hanfon gartref fod yn fwy difyr a pherthnasol i rieni. Yn ychwanegol, mae rhieni'n gyfarwydd â defnyddio cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol, ac maent yn fwy hyderus i ymateb a chyfrannu'n reddfol trwy'r cyfrwng hwn.

At ei gilydd, dywed llawer o arweinwyr ar draws ysgolion arbennig ac UCDau eu bod yn hyderus fod y gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod blaenorol o gau ysgolion ac UCDau wedi eu paratoi'n dda os bydd unrhyw gyfnod cau yn y dyfodol. Yn ychwanegol, dywed arweinwyr mewn llawer o leoliadau eu bod yn parhau â'u cynllunio a'u paratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Mewn ychydig o achosion, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran defnyddio platfformau ar-lein. Yn yr un modd, mewn ychydig o leoliadau, mae arweinwyr yn ailddatgan eu barn yn gryf, sef nad yw dull dysgu cyfunol yn briodol ar gyfer rhai o'u disgyblion, o leiaf, o ganlyniad i gymhlethdod anghenion disgyblion, neu oherwydd nad oes gan deuluoedd fynediad at dechnoleg neu nid ydynt yn meddu ar y medrau i ddefnyddio hyn, neu nid ydynt yn ddigon cefnogol o ddysgu eu plentyn. Yn benodol, dywed arweinwyr fod dulliau dysgu o bell yn fwy heriol o lawer i ddisgyblion ag anghenion cymhleth dwys a lluosog neu i ddisgyblion â chyflwr y sbectrwm awtistig, y mae llawer ohonynt wedi'i chael yn anodd addasu yn unol ag arferion dysgu newydd gartref.

**Cynllunio ar gyfer cynnydd**

Cadarnha bron holl arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau eu bod yn defnyddio ystod o ddulliau i asesu'r graddau y gallai bylchau neu achosion o lithro'n ôl yn nysgu a lles disgyblion fod wedi cynyddu dros y cyfnod cau ysgolion. Yn ogystal ag arsylwadau anffurfiol disgyblion, mae llawer o ysgolion arbennig ac UCDau yn cynnal asesiadau gwaelodlin mewn llythrennedd a rhifedd, ac mewn meysydd allweddol fel ymddygiad, rhyngweithio cymdeithasol ac annibyniaeth, yn ogystal.

Mae llawer o arweinwyr yn disgrifio'r modd y mae staff yn rheoli'r prosesau asesu hyn yn sensitif dros gyfnodau estynedig i leihau gorbryderon disgyblion a chefnogi dychwelyd i arferion dyddiol.

Disgrifa'r rhan fwyaf o arweinwyr ar draws y ddau sector y modd y mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i addasu rhaglenni dysgu unigol disgyblion i ganiatáu ar gyfer ymyriadau a chymorth ychwanegol i ddisgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o UCDau yn cadarnhau bod canlyniadau asesiadau gwaelodlin yn dangos bod lefelau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gostwng. O ganlyniad, yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae dwyster ac amlder y sesiynau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion targedig wedi cynyddu.

Cadarnha llawer o arweinwyr bod angen addasu'r targedau yn CAUau bron pob un o'r disgyblion ers iddynt ddychwelyd i addysg ar y safle. Mewn llawer o achosion, noda arweinwyr bod y targedau hynny'n cynnwys mwy o bwyslais ar ddeilliannau i gefnogi lles disgyblion.

Mewn llawer o ysgolion arbennig, dywed arweinwyr fod lefelau medrau annibyniaeth disgyblion wedi llithro'n ôl, yn enwedig o ran eu medrau gofal personol. Yn yr ysgolion hyn, mae staff wedi addasu gweithgareddau dysgu i gynnwys pwyslais cynyddol ar ddatblygu medrau annibyniaeth.

Mewn lleiafrif o ysgolion arbennig, mae arweinwyr yn nodi bod yr effaith ar ddysgu disgyblion yn llai nag y gallai fod o ganlyniad i'w paratoadau cyn y cyfnod cau ysgolion. Yn yr achosion hyn, fe wnaeth arweinwyr ragweld tebygolrwydd cau ysgolion, a sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i ddisgyblion allu dysgu ar-lein, pan roedd angen. Roedd y mesurau hyn, ynghyd â'r cyswllt agos a gynhaliwyd gyda disgyblion a theuluoedd yn ystod y cyfnod cau ysgolion, yn golygu mai prin oedd y syrpreisis pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol ym mis Medi.

## Dysgu proffesiynol

Mae holl arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn disgrifio'r modd y mae staff wedi ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol trwy gydol y cyfnod cau, ac ers dychwelyd ym mis Medi. Dywed arweinwyr, yn y rhan fwyaf o achosion, fod awdurdodau lleol wedi rhoi diweddariadau buddiol ar hyfforddiant gorfodol fel diogelu, ymyrraeth gorfforol, codi a chario, cymorth cyntaf a materion iechyd a diogelwch eraill. Mae staff ar bob lefel wedi mynychu cyrsiau hyfforddi rhithwir, wedi cwblhau modiwlau mewn cymwysterau pellach, ac wedi ymgymryd ag ymchwil unigol.

> Yn ystod y cyfnod cau ysgolion, mae pob un o'r staff mewn un ysgol arbennig wedi bod yn dilyn cyrsiau ymchwil a hyfforddi trwy'r Brifysgol Agored. Maent wedi ennill gwybodaeth a medrau mewn ystod eang o feysydd sy'n berthnasol i'w gwaith, fel gwydnwch a rhianta'r glasoed. Mae staff wedi rhoi adborth i'r uwch dîm arweinyddiaeth ar eu hymchwil, gan gynnwys sut bydd hyn yn dylanwadu ar eu harfer ac yn eu helpu i gynllunio'n bwrpasol ar gyfer y cwricwlwm newydd.

At ei gilydd, cadarnha arweinwyr bod dysgu proffesiynol ar gyfer staff wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar ddatblygu eu dealltwriaeth o gefnogi iechyd

emosiynol disgyblion, gan gynnwys materion pwysig fel ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ymlyniad, gorbryder, hunanladdiad a hunan-niweidio. Yn ychwanegol, bu cyfleoedd i staff cymorth ennill medrau pellach mewn gweithio gyda disgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia ac anhwylderau niwrolegol a datblygiadol, fel cyflwr y sbectrwm awtistig.

Mae llawer o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau yn cadarnhau eu bod wedi gwerthuso'u profiadau o heriau a llwyddiannau defnyddio dysgu cyfunol yn ystod y cyfnod cau ysgolion ac UCDau i lywio eu blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol y tymor hwn. Mae hyn wedi canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â heriau defnyddio dulliau dysgu cyfunol i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai ag anghenion dwys a lluosog, yn ogystal â magu hyder rhieni, a mynd i'r afael â phryderon diogelu staff mewn perthynas â darparu dysgu cydamserol ar-lein.

Yn benodol, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen ymestyn medrau TGCh staff i roi dulliau dysgu cyfunol ar waith mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i anghenion amrywiol eu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn defnyddio rhaglenni TGCh, ymarfer mewn cyflwyno gwersi ar-lein, darparu cyfleoedd i sicrhau bod gan ddisgyblion y set medrau perthnasol i ddefnyddio dysgu ar-lein, ac ymestyn ystod yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgu disgyblion.

Mewn un ysgol arbennig, esboniodd y pennaeth mai prif ffocws dysgu proffesiynol diweddar fu datblygu'r defnydd o TGCh i gefnogi dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Esboniodd, er bod staff yn hyddysg yn defnyddio TGCh fel strategaeth addysgu, fod angen dulliau gwahanol ar gyfer y sefyllfa bresennol. Yn yr un modd, oherwydd anghenion amrywiol iawn disgyblion ar draws yr ysgol ac ym mhob dosbarth, cadarnhaodd fod y dull hwn wedi golygu rhoi'r amser i athrawon unigol archwilio'r strategaethau a'r adnoddau sy'n diwallu anghenion eu disgyblion. Er enghraifft, mae wedi atal sesiynau hyfforddiant wythnosol ar ôl yr ysgol i roi amser i staff wneud eu hymchwil bersonol eu hunain i ddulliau dysgu cyfunol, a gwneud canlyniadau hyn yn rhan o'u cynllunio. Disgrifiodd y modd y mae staff wedi dechrau casglu eu hadnoddau eu hunain a'u bod yn rhannu'r rhain â chydweithwyr. I gefnogi'r dysgu hwn ymhellach, mae'r ysgol wedi darparu offer ychwanegol i staff, lle mae angen.

Mewn ychydig o ysgolion arbennig ac UCDau, cadarnha arweinwyr eu bod wedi dyfarnu taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu ar gyfer aelodau staff i hwyluso rhannu arfer dda a datblygu dysgu cyfunol ar draws y lleoliad. Cred yr arweinwyr hyn bod y dull hwn yn cefnogi datblygu dulliau cyfunol sy'n bwrpasol i anghenion disgyblion yn y lleoliad.

Mewn un ysgol arbennig, mae'r pennaeth wedi creu swydd cyfrifoldeb addysgu a dysgu i archwilio'r potensial ar gyfer datblygu modelau dysgu cyfunol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn yr ysgol. Esboniodd sut mae deiliad y swydd yn datblygu syniadau ac arferion yr ysgol yn y maes hwn, ac yn rhannu arfer dda ac yn arwain trafodaethau ar ddysgu cyfunol mewn cyfarfodydd staff. Mae'r ysgol wedi cael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol â hyn, sydd wedi rhannu ei arweiniad ar ddysgu cyfunol â'r ysgol trwy ymgynghorydd her yr ysgol.

Mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, darparodd yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol gyfleoedd hyfforddi, gweminarau ac adnoddau ar gyfer dysgu cyfunol yn ystod y cyfnod cau. Mae ychydig o arweinwyr UCDau yn nodi'r modd y mae'r consortiwm rhanbarthol wedi parhau i drefnu pecynnau hyfforddiant digidol pwrpasol i ategu'r rhain y tymor hwn.

Mewn un UCD, cadarnhaodd arweinwyr fod perthnasoedd proffesiynol sefydledig â'r consortiwm rhanbarthol wedi arwain at fynediad rhwydd at gymorth amserol a phwrpasol. Caiff perthnasoedd uniongyrchol newydd gyda hyfforddwyr digidol consortiwm eu trefnu gan ymgynghorydd her yr UCD. Er enghraifft, cafodd pob un o'r staff dair sesiwn o hyfforddiant pwrpasol i ychwanegu at y sesiynau rhanbarthol ar-lein niferus a'r gweithgareddau rhestr chwarae. Dywed arweinwyr fod staff yn gadarn yn eu gallu i arwain dysgu cyfunol, ac yn allweddol, mae ganddynt y profiad erbyn hyn i ddefnyddio offer â hyder.

### Y Gymraeg

Dylid bod yn ofalus wrth geisio cyffredinoli'r canfyddiadau isod, oherwydd maint y sampl. Fodd bynnag, ar draws y lleoliadau cyfrwng Cymraeg prin iawn sydd yn yr adolygiad thematig hwn, mae arweinwyr yn nodi nad yw'r cyfnod cau ysgolion wedi cael effaith andwyol ar fedrau llafaredd disgyblion. Mae hyn oherwydd, fel mae arweinwyr yn cadarnhau, bod y rhan fwyaf o rieni sy'n gofyn am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn yn y sector hwn yn siarad Cymraeg eu hunain, ac o'r herwydd, roedd disgyblion wedi eu trochi yn yr iaith o hyd pan roeddent gartref yn ystod y cyfnod hwn.

Er bod llai o adnoddau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg nag yn Saesneg ar y cyfan ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig, mae arweinwyr yn cadarnhau bod staff yn brofiadol mewn addasu adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion, a bod mynediad at ddysgu ar-lein ar draws y lleoliadau hyn wedi parhau i gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, roedd un ysgol yn darparu storïau a chaneuon ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed

### Proses ac atgyfeiriadau statudol

Cadarnha bron pob arweinydd ysgol arbennig ac UCD bod prosesau statudol ar gyfer adolygiadau blynyddol wedi parhau yn ystod y cyfnod cau ysgolion, a bod y rhain wedi cael eu cwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn modd amserol. Dywed arweinwyr fod defnyddio platfformau ar-lein i hwyluso cyfarfodydd wedi bod yn hynod fuddiol o ran galluogi ystod ehangach o weithwyr proffesiynol o asiantaethau allanol na'r arfer i fynychu cyfarfodydd, trafod anghenion disgyblion a chynllunio ymyriadau. Er bod mwyafrif yr arweinwyr yn dweud bod rhieni'n hoffi adolygiadau rhithwir ac yn ymgysylltu'n dda â nhw, dywed lleiafrif ohonynt fod rhieni wedi'i chael yn anodd cael mynediad at gyfarfodydd ar-lein ac wedi colli gweld staff addysgu a staff asiantaethau allanol wyneb yn wyneb.

Trwy gydol y cyfnod cau ysgolion ac yn ystod y cyfnod presennol, disgrifia arweinwyr ysgolion arbennig y modd y mae staff wedi gweithio'n greadigol gyda staff

awdurdodau lleol i alluogi rhai o'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed i fanteisio ar ymyriadau therapiwtig o bell mewn partneriaeth â rhieni. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod cymorth rhithwir parhaus yn cael ei gynnal ar gyfer disgyblion o ran gwasanaethau fel therapi galwedigaethol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fanteisio ar raglenni ymarfer corff a chynnal offer arbenigol yn y cartref. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn darparu mynediad at dechnoleg benodol fel switshys ar gyfer disgyblion yn eu cartrefi.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, dywed arweinwyr ysgolion arbennig nad ydynt wedi gallu darparu ystod lawn yr ymyriadau ar gyfer disgyblion, fel yr amlinellir yn eu datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog nad ydynt bob amser wedi gallu cael at ddarpariaeth a gyflwynir o bell. Yn yr un modd, er bod y rhan fwyaf o arweinwyr UCDau wedi dweud na fu unrhyw beryglon sylweddol i ddarpariaeth, nid yw'n glir ar y cyfan a yw disgyblion wedi cael yr oriau dysgu a chymorth y byddai ganddynt hawl i'w cael pe baent wedi bod yn mynychu'r UCD.

Mewn un ysgol arbennig, disgrifiodd arweinwyr bryderon cychwynnol yr ysgol ar ddechrau'r cyfnod cau ysgolion, sef na fyddai disgyblion yr oedd angen iddynt gael ymyriadau penodol gan asiantaethau allanol a staff arbenigol yn cael y cymorth parhaus roedd ei angen arnynt. I liniaru yn erbyn hyn, bu'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol cyn cau'r ysgol er mwyn gallu mynd ag offer disgyblion adref, a rhoi gweithdrefnau ar waith i ddarparu cymorth o bell ar gyfer disgyblion a theuluoedd ac adolygu rhaglenni cymorth yn ôl yr angen. Cynhaliodd yr ysgol gyfarfodydd wythnosol rhwng y tîm amlddisgyblaethol a'r ffisiotherapydd, y therapydd galwedigaethol a'r therapydd lleferydd ac iaith. Defnyddiodd y gweithwyr proffesiynol hyn ap i gynnal asesiadau o bell a darparu adborth uniongyrchol a di-oed i rieni a disgyblion. Fe wnaeth hyn eu galluogi i gael golwg ar deuluoedd, ac adolygu ymyriadau ac offer, tra roeddent yn parhau i ddarparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion oedd yn mynychu'r ddarpariaeth gofal plant.

At ei gilydd, dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod trefniadau pontio ar gyfer disgyblion yn ymuno â'r ysgol arbennig neu'r UCD wedi bod yn llwyddiannus, gyda llawer o weithgareddau ymsefydlu ac ymgyfarwyddo yn cael eu cynnal ar-lein ar ddiwedd y tymor olaf, neu'n cael eu haildrefnu i'w cynnal ar ddiwedd y diwrnod ysgol, er enghraifft. Mewn ychydig o UCDau, dywed arweinwyr eu bod wedi derbyn niferoedd mwy o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 newydd na'r arfer ym mis Medi o ganlyniad i ohirio cyfarfodydd y panel cymedroli yn rhan olaf y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, dywed arweinwyr ar draws y ddau leoliad nad ydynt wedi sylwi ar unrhyw gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau i wasanaethau plant ar hyn o bryd. Maent yn priodoli hyn i lwyddiant trefniadau i aros mewn cysylltiad â disgyblion a'u teuluoedd trwy gydol y cyfnod cau ysgolion, a chynnal darpariaeth gwasanaethau hanfodol.

**Gwaith gwasanaethau arbenigol ac amlasiantaethol**

Bron ym mhob lleoliad, mae arweinwyr yn cadarnhau bod cydweithio â gwasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol i gefnogi iechyd a lles disgyblion wedi parhau ers y cyfnod cau ysgolion ac yn ystod y tymor hwn. Mae llawer o

arweinwyr yn cadarnhau bod perthnasoedd gwaith gyda phartneriaid allanol, yn enwedig y rhai o fewn yr awdurdod lleol, gan gynnwys y gwasanaeth lles addysg, y gwasanaeth seicoleg addysg, a'r tîm plant ag anableddau, er enghraifft, wedi cryfhau yn ystod y cyfnod hwn. Maent yn priodoli hyn i synnwyr cryf o ddiben ar y cyd i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

Dywed bron yr holl arweinwyr ar draws y ddau leoliad y bu'r cydweithio hwn yn hynod fuddiol yn cefnogi ymgysylltu â theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd. Mewn llawer o achosion, bu gweithwyr allweddol o ysgolion neu UCDau a gwasanaethau plant yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ymweliadau ger giât yr ardd i ollwng adnoddau dysgu a theganau bach neu roddion bwyd, a oedd yn eu galluogi i wirio lles plant hefyd. Yn benodol, dywed llawer o arweinwyr UCDau fod gwaith y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth ieuenctid wedi bod yn werthfawr yn ystod y cyfnod cau ysgolion, ac wedi parhau y tymor hwn. Er enghraifft, mewn un UCD, mae staff y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid bellach yn gweithio ar y safle gyda disgyblion unigol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi trefnu gweithdai ar gyfer disgyblion eraill ar droseddau ceir ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mewn un ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, gweithiodd staff yn agos â phartneriaid allanol i ddatblygu cynlluniau pontio personoledig i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion Blwyddyn 11 a oedd yn gadael yr ysgol. Bu staff yn cynnal cyswllt wythnosol â'r holl ymadawyr trwy gydol gwyliau'r haf, gan gofnodi gwybodaeth ar system gwybodaeth reoli'r ysgol. Galluogodd hyn arweinwyr i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ystod y galwadau hyn a chynnwys tîm addysg heblaw yn yr ysgol yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru neu wasanaethau cymdeithasol, pan roedd angen. Fe wnaeth hyn helpu sicrhau bod bron pob un o'r ymadawyr yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'w cyrchfan arfaethedig.

At ei gilydd, dywed arweinwyr mewn ysgolion arbennig eu bod wedi croesawu'r cymorth y maent wedi'i gael gan gydweithwyr iechyd wrth gynllunio a monitro gofal disgyblion ag anghenion meddygol hynod gymhleth. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r modd y mae timau meddygol lleol wedi cefnogi ysgolion trwy baratoi asesiadau risg clinigol estynedig ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Dywed arweinwyr fod y cydweithio hwn yn hynod effeithiol pan fydd gwasanaethau wedi'u cydleoli ar safle'r ysgol arbennig.

Mewn un ysgol arbennig, mae tîm amlasiantaethol wedi gweithredu o'r safle ers dechrau argyfwng y pandemig. Mae'r tîm yn cynnwys staff o'r ysgol, yn ogystal â chynrychiolwyr o faes therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, seicoleg, gofal cymdeithasol a gofal iechyd, deietegwyr a nyrsys a meddygon pediatrig. Mae rhieni a disgyblion yn defnyddio gwasanaethau ar sail apwyntiadau. Mae'r tîm wedi bod yn rhan o ddatblygu llawer o'r asesiadau risg a oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r ysgol ddychwelyd i ddarpariaeth amser llawn ar gyfer yr holl ddisgyblion, er enghraifft asesiadau risg ar gyfer gweithio gyda disgyblion ag anghenion meddygol cymhleth. Sefydlwyd y tîm hwn i ddechrau i ddarparu ar gyfer disgyblion yr ysgol, ond mae bellach yn cynnwys yr holl ysgolion arbennig a'r unedau arbenigol yn yr awdurdod lleol.

Mae llawer o arweinwyr mewn ysgolion arbennig yn nodi bod staff o wasanaethau arbenigol yn dychwelyd i'r ysgol i gyflwyno rhaglenni penodol wyneb yn wyneb. Er enghraifft, mae nyrsys ysgol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a staff meddygol eraill wedi ailddechrau ymweld ag ysgolion i weithio'n uniongyrchol gyda disgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr yn codi pryderon am gyflymdra a graddau hyn. Maent yn priodoli hyn i wahaniaethau rhwng gwasanaethau fel lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi yn eu polisïau ar weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Yn yr un modd, mae llawer o arweinwyr UCD yn mynegi pryderon nad yw seicolegwyr a gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol yn gweld disgyblion wyneb yn wyneb o hyd fel yr oeddent o'r blaen.

Mae llawer o arweinwyr yn mynegi pryder am yr amrywiad yn y modd y mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cyflwyno'i wasanaeth ar draws byrddau iechyd yn genedlaethol. Er mai ychydig iawn o arweinwyr sy'n nodi bod arbenigwyr iechyd meddwl yn parhau i gefnogi disgyblion, mae llawer ohonynt yn mynegi pryder nad yw asesiadau a gwaith uniongyrchol wedi ailddechrau. Mewn llawer o achosion, byddai'n ymddangos bod staff UCD eu hunain yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliad i gefnogi iechyd meddwl eu disgyblion, yn ogystal â darparu cymorth gwerthfawr i rieni.

**Safonau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)**

Adeg ein galwadau ymgysylltu, cadarnhaodd llawer o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau mai dim ond yn ddiweddar yr oeddent wedi cael eu hysbysu am y swm y byddent yn ei gael o dan y cynllun cyllid grant Safonau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Ar draws yr holl leoliadau lle roedd y cyllid RRRS wedi cael ei ddyrannu, mae arweinwyr yn nodi'r amrywiad eang yn y symiau sy'n cael eu dosbarthu ar draws gwahanol sectorau ac ysgolion yng Nghymru. Mynegodd llawer ohonynt bryderon am effaith bosibl y swm roeddent wedi'i gael dros dro. Ychydig iawn o arweinwyr yn unig a nododd eu bod wedi trafod eu cynlluniau gyda swyddogion yr awdurdod lleol.

Mewn mwyafrif o ysgolion arbennig ac UCDau, dywed arweinwyr eu bod yn bwriadu defnyddio'r cyllid i gyfrannu at benodi aelod staff ychwanegol i gyflwyno pecynnau ymyrraeth pwrpasol mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd a lles. Mae arweinwyr yn sôn am raglenni penodol, gan gynnwys staffio i ddatblygu medrau yn seiliedig ar chwarae, cymorth ymddygiad ar gyfer disgyblion sydd â chyflwr y sbectrwm awtistig sy'n hynod gymhleth a heriol, neu i ariannu gweithgareddau i feithrin hunan-barch disgyblion, a datblygu eu medrau gwaith tîm a chyfathrebu.

Mewn un ysgol arbennig, cadarnhaodd y pennaeth fod gan yr ysgol gynlluniau clir ar gyfer defnyddio'r grant RRRS. Mae wedi cynyddu'r oriau a neilltuir i gynorthwyydd addysgu lefel uwch i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer chwarae yn seiliedig ar berthynas. Nododd y pennaeth fod yr ysgol wedi sylwi bod ychydig o ddisgyblion wedi colli eu medrau yn seiliedig ar chwarae yn ystod cyfnod cau'r ysgol, ac wedi dod yn llai goddefgar o ddisgyblion eraill.

Mewn ysgol arbennig arall, mae arweinwyr yn defnyddio'r cyllid RRRS i fuddsoddi mewn dadansoddwyr ymddygiad. Bydd y rhaglen hon yn galluogi'r dadansoddwyr ymddygiad i gefnogi'r athrawon ystafell ddosbarth sy'n gweithio gyda'r disgyblion

mwyaf heriol a'u teuluoedd. Bydd y dadansoddwyr ymddygiad yn monitro effaith y gwaith hwn.